cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) 2025/26

# Nodiadau Ymgeisio

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg.
Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

EMW/APP/N/2526/CY/A

# Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn

Mae'r nodiadau hyn wedi'u rhannu'n adrannau yn union fel y ffurflen gais LCA, felly gallwch ganfod yr wybodaeth angenrheidiol yn gyflymach. Dylech gadw'r nodiadau hyn, oherwydd mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ynddynt a allai fod yn hwylus yn ystod y flwyddyn.

g Pan welwch chi'r eicon hwn ar y ffurflen gais, mae **gwybodaeth** ychwanegol yn y nodiadau hyn i'ch helpu chi.

t Ble gwelwch yr eicon yma yn y ffurflen gais, mae'n golygu bod angen i chi anfon **tystiolaeth**. Bydd y nodiadau hyn yn dweud wrthych yn union beth ydym ei angen gennych. Dylech anfon **llungopïau** o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

## Beth yw LCA?

Mae Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn daliad wythnosol i helpu pobl ifanc 16, 17 ac 18 oed â chostau addysg bellach.

Gwneir y taliadau bob pythefnos cyn belled ag y byddwch chi'n parhau i gyflawni gofynion eich ysgol neu'ch coleg ynghylch presenoldeb.

**Ni fydd cael LCA yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rydych chi neu eich teulu eisoes yn eu cael.**

## Pwy all gael LCA?

Gallwch gael LCA os yw pob un o'r datganiadau hyn yn berthnasol i chi:

- rydych chi'n byw fel arfer yng Nghymru;
- rydych chi'n 16, 17 neu 18 mlwydd oed;
- rydych chi'n astudio cwrs amser llawn mewn ysgol uwchradd neu o leiaf 12 awr mewn coleg a gymeradwyir gan yr Adran Addysg a Sgiliau ar gwrs cymwys. Mae cyrsiau yn cynnwys Sgiliau Byw'n Annibynnol neu, os ydych chi'n astudio yn Lloegr, Paratoi ar gyfer Bywyd fel Oedolyn;
- Mae'ch cwrs yn parhau am o leiaf 10 wythnos;
- rydych yn gallu cyflawni'r gofynion o ran cenedligrwydd a phreswylio;
- rydych yn byw mewn cartref sydd ag incwm sydd yn:
  - £23,400 neu'n llai

    **neu**
  - £25,974 neu'n llai **ac** mae mwy nag un person ifanc yn y cartref yn gymwys i gael Budd-dal Plant.

## Cymorth a gwybodaeth ychwanegol

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch LCA, trowch at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

Os hoffech siarad â rhywun ynghylch gwneud cais am LCA, gallwch ffonio **0300 200 4050**

Mae ein holl ffurflenni a'n canllawiau ar gael ar ffurf Braille, print bras neu sain. Os oes arnoch chi angen y rhain, gallwch ofyn amdanynt trwy e-bostio eich enw, eich cyfeiriad a manylion y fformat gofynnol at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffoniwch **0141 243 3686**.

## Unrhyw beth arall?

Os bydd unrhyw un o'ch amgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd angen i chi ein ffonio ni ar **0300 200 4050** i'n hysbysu.

## Y Lluoedd Arfog

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru, efallai nad hon oedd eich gwlad breswyl ar adeg yr ymrestriad, er enghraifft, os ydych yn byw'n barhaol mewn ardal arall o'r DU a dim ond wedi symud oherwydd yr ymrestriad.

# **Adran 1** Cytundebau a chydsyniad

**g Crynodeb Defnydd o Wybodaeth**

Cyllid Myfyrwyr Cymru yw'r gwasanaeth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig (SLC), wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo swyddogaethau penodol yn ymwneud â cheisiadau cyllid i fyfyrwyr i SLC.

Defnyddir yr wybodaeth a nodir yn y ffurflen hon er mwyn prosesu'r cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg gan SLC ac unrhyw waith gweinyddol dilynol yn ymwneud â'r cyllid. Esbonnir pob adran sy'n gofyn am eich data personol isod:

- Adran 2 **Manylion y myfyriwr –** fyddwn ni ddim ond yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon os byddwn angen cysylltu â chi neu eich trydydd parti enwebedig.
- Adran 3 **Eich manylion taliad –** fyddwn ni ddim ond yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon os byddwn angen gwneud taliadau i chi neu eich trydydd parti enwebedig.
- Adran 4 **Manylion ysgol neu goleg y myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo os ydych chi'n astudio mewn ysgol/coleg sy'n gymwys i dderbyn LCA.
- Adran 5 **Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio'r myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo os ydych chi'n gymwys i dderbyn LCA ac i gadarnhau eich hunaniaeth.
- Adran 6 **Hanes preswylio'r myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n gymwys i dderbyn LCA yn seiliedig ar eich hanes preswylio yn unig.
- Adran 7 **Manylion annibyniaeth y myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n ddibynnol neu'n annibynnol. Mae hyn yn bwysig oherwydd byddwn wedyn yn gallu gofyn i chi am yr wybodaeth ariannol ac/neu dystiolaeth benodol fyddwn angen i gyfrifo os ydych chi'n gymwys i dderbyn LCA.
- Adran 8 **Manylion ariannol –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych chi ac/neu eich rhiant(rhieni)/partner yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n gymwys i dderbyn LCA yn seiliedig ar incwm eich cartref yn unig. Mae hyn yn golygu rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda HMRC.
- Adran 9 **Manylion teulu'r myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych chi a'ch teulu yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n gymwys i dderbyn LCA yn seiliedig ar incwm eich cartref yn unig.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

**1.1** Trydydd parti awdurdodedig
g

Mae parti awdurdodedig yn golygu rhywun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu ac/neu i dderbyn taliadau ar ran y myfyriwr. Mae angen tystiolaeth megis dogfennaeth gan Awdurdodau Lleol neu Bŵer Atwrnai. **Darllenwch 1.2 isod**.

**1.2** Trydydd parti awdurdodedig
t

**Mae angen i ni weld tystiolaeth eich bod wedi'ch awdurdodi i weithredu a/neu dal cronfeydd ar ran y myfyriwr. Anfonwch y canlynol o'r rhain atom:**

- dogfennaeth gan gorff cyhoeddus (er enghraifft, eich Awdurdod Lleol) neu Bŵer Atwrnai yn cadarnhau eich bod wedi'ch awdurdodi i weithredu a/neu dderbyn taliadau ar ran y myfyriwr.

**Mae enghreifftiau yn cynnwys:**

- datganiad o anghenion addysgol arbennig y myfyriwr; **neu**
- lythyr yn dangos eich bod yn cael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA); **neu**
- lythyr yn dangos Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) ar ran y myfyriwr.

# Adran 2 Manylion y myfyriwr

**2.2** Manylion personol

t

**Os yw eich enw wedi newid ac yn wahanol i'r un a ddangosir ar eich dogfennau, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o newid eich enw atom hefyd. Gall fod yn un o'r rhain:**

- eich tystysgrif priodas; **neu**
- gweithred newid enw.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr

g **Dinasyddion o'r UE ac AEE**
Mae'r rhestr ddiweddaraf o holl aelod-wladwriaethau'r UE ac AEE ar gael yn: **www.homeoffice.gov.uk**

g **Preswylio fel arfer**
Golyga 'preswylio fel arfer' eich bod yn byw'n arferol ac yn gyfreithiol yn y DU, AEE, y Swistir a Gibraltar o ddewis. Os ydych chi wedi symud i'r DU i ddibenion addysg, rhaid eich bod wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE, y Swistir neu Gibraltar cyn i chi fod yn preswylio fel arfer yn y DU.

t **Egwyl mewn hawl preswylio**
Os nad ydych wedi bod yn preswylio fel arfer ar gyfer y cyfnod gofynnol, efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gael cyllid os allwch chi ddangos fod yr egwyl yn un dros dro a'ch bod yn bwriadu dychwelyd i'r Deyrnas Unedig. Os oedd yr egwyl mewn hawl preswylio oherwydd gwasanaeth gweithredol yn y Lluoedd Arfog, rydych yn dal i gael eich ystyried i fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig.

**Mae enghreifftiau o egwyliau dros dro derbyniol yn cynnwys:**

- blwyddyn allan
- gwaith gwirfoddol dramor
- rhieni yn gweithio dramor ar gontract cyflogaeth dros do

**Mae angen i chi anfon tystiolaeth atom a all gynnwys, ond nad yw'n gyfyngedig i:**

- lythyr gan eich darparwr dysgu yn cadarnhau eich blwyddyn allan
- llythyr gan y cyflogwr ar bapur pennawd yn cadarnhau eich cyflogaeth dros dro a'r dyddiadau a weithiwyd
- llythyr gan y Lluoedd Arfog os yn berthnasol
- teithebau neu drwyddedi gwaith dros dro yn ogystal â'r uchod

Rhaid i chi hefyd fod yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs ac yn gallu cael LCA.

Os oes angen i chi angen eich Hawlen Fiometrig Preswylio fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw gwestiwn yn yr adran hon, gallwn eich sicrhau mai dim ond i ddilysu eich hunaniaeth y'i defnyddir, ac na fydd unrhyw ddata arall yn cael ei ddefnyddio na storio.

**Disgynyddion uniongyrchol a pherthnasau uniongyrchol yn y llinell esgynnol**

Mae disgynnydd uniongyrchol yn blentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati i unigolyn. Rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol yw rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

## 5.1 Gwladolyn y DU

t

Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.

Os nad oes gennych chi basbort dilys y Deyrnas Unedig, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif geni wreiddiol atom.

Ni allwn dderbyn pasbort sydd wedi dod i ben fel prawf o'ch hunaniaeth.

## 5.2 Gwladolyn Gwyddelig

t

Mae angen i chi anfon:

- eich pasbort Gweriniaeth Iwerddon gwreiddiol; neu
- eich gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol.

Ni allwn dderbyn pasbort sydd wedi dod i ben fel prawf o'ch hunaniaeth.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.3** Aelod o deulu gwladolyn y DU

**5.4** Aelod o deulu gwladolyn y DU - parhad

t

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- gŵr, gwraig, partner sifil;
- plentyn neu lysblentyn;

neu ddisgynnydd uniongyrchol arall o wladolyn y DU.

Rhaid i chi anfon pasbort eich aelod o'r teulu sy'n wladolyn y DU a hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; neu
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; a
- thystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel disgynnydd uniongyrchol i wladolyn y DU, rhaid i chi fod dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.26**.

**5.5** Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

t

Os ydych wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch preswyliad yng nghwestiwn **5.26**.

**5.6** Plentyn Gwladolyn y Swistir

t

Rhaid eich bod chi a'ch rhiant neu lys riant wedi derbyn statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid eich bod yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE, neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd eich cwrs. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd eich cwrs. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiad banc
- Slip cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais
- Bil cyfleustodau
- Gohebiaeth gan awdurdod lleol
- Gohebiaeth gan adran llywodraeth

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.7** Gweithiwr Mudol o'r AEE neu'r Swistir

t

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd.
- Cyfrifon archwiliedig, ffurflenni treth neu fanylion incwm os yn hunangyflogedig.
- Llythyr gan gyflogwr yn cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio tra'n astudio.
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd neu wedi gweithio'n flaenorol yn y Deyrnas Unedig.

Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

Os mai'ch plentyn, mab yng nghyfraith, merch yng nghyfraith, plentyn eich partner sifil neu ddisgynnydd uniongyrchol arall yw'r gweithiwr, rhaid i chi fod yn ddibynnol arno/arni.

Os ydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i wladolyn yr AEE, rhaid i chi fod dan 21, neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn. Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Os ydych chi neu'ch aelod o'r teulu yn Weithiwr y Ffin, anfonwch hawlen y Gweithiwr y Ffin neu dystiolaeth gyfatebol.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.26**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.8** t Aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu Swisaidd a ddaeth i'r DU cyn 31 Rhagfyr 2020

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir rhaid bod gan eich aelod o'r teulu fod statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog yn y DU. Rhaid eich bod wedi gwneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE o fewn tri mis i gyrraedd y DU.

Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

**5.9** t Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Dyddiad dod i ben**

Os ydych wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

**Dyddiad dod i ben**

Os yw eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.29**.

**Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol**

Roedd y cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.10** Statws wedi setlo (caniatâd amhenodol i fynediad neu aros neu hawl preswylio)

t

Mae statws wedi setlo yn golygu y gallwch fyw yn y Deyrnas Unedig yn barhaus heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar am ba hyd y gallwch aros.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Rydych yn ddinesydd Prydeinig.
- Rydych wedi cael caniatâd amhenodol i fynediad neu aros.
- Mae gennych hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref ar **www.homeoffice.gov.uk**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.26**.

**5.11** Caniatâd yn ôl disgresiwn o ganlyniad i gais lloches aflwyddiannus

**5.12** Caniatâd yn ôl disgresiwn ble na wnaethpwyd cais am loches

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

Ganiatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.26**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

**5.13** Caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.26**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.14** Caniatâd i aros ar sail bywyd preifat

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.26**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.15** t Caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), yn dilyn cais aflwyddiannus am 'ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd teuluol neu breifat

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.26**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.16** Person heb Wladwriaeth

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.29**.

**5.17** Cynlluniau Wcráin

t

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi'n blentyn neu'n llysblentyn i'r person sydd â chaniatâd, mae'n rhaid mai chi oedd y plentyn neu'r llysblentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.29**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.18** Statws Ffoadur neu Amddiffyniad Dros Dro

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **5.29**

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.19** Diogelwch Dyngarol

**t**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o’ch perthynas i’r sawl sydd â’r statws hwn os nad chi sydd â’r statws.

Os ydych chi’n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi’n cael eich ystyried i fod yn ‘blentyn’.

Os ydych chi’n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno’r cais.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a’ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i’ch aelod o’ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a’ch aelod o’r teulu yng nghwestiwn **5.29**.

**5.20** Plentyn Gweithiwr Twrcaidd

**t**

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o gyflogaeth eich rhiant yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/chontract cyflogaeth.

Rhaid i chi hefyd anfon llythyr y Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod gan eich rhiant hawl estynedig i aros yn y DU wedi 31 Rhagfyr 2020.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a’ch aelod o’r teulu yng nghwestiwn **5.27**.

**5.21** Caniatâd i Aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

**t**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o’ch perthynas i’r sawl sydd â’r statws hwn os nad chi sydd â’r statws.

Os ydych chi’n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi’n cael eich ystyried i fod yn ‘blentyn’.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a’ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.22** Caniatâd Calais

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**5.23** Caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dioddefwr trais domestig

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Os cafodd eich rhiant/llys-riant y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch rhiant/llys-riant yng nghwestiwn **5.29**.

**5.24** Caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner mewn profedigaeth

t

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **5.28**.

**Os cafodd eich rhiant/llys-riant y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch rhiant/llys-riant yng nghwestiwn **5.29**.

# Adran 7 Manylion annibyniaeth y myfyriwr

| | | |
|---|---|---|
| 7.2 (g) | Credaf y dylwn fod yn fyfyriwr annibynnol | Os ydych wedi cael eich cynghori i barhau fel myfyriwr dibynnol (h.y. rydych yn ddibynnol yn ariannol ar eich rhi-ant/gwarcheidwad) ond eich bod yn ystyried eich bod yn fyfyriwr annibynnol serch hynny – ffoniwch ni ar **0300 200 4050** i drafod eich sefyllfa. |
| 7.3 (t) | Byw dan ofal Awdurdod Lleol neu riant/rhieni maeth | Os ar unrhyw adeg o 14 oed hyd at ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs:<br>• nad ydych wedi bod yn byw dan ofal cyfreithlon eich rhieni am gyfanswm o 13 wythnos neu fwy; **neu**<br>• eich bod dan orchymyn gwarchodaeth arbennig, yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol, neu wedi derbyn llety gan Awdurdod Lleol am o leiaf 13 wythnos.<br>Os cawsoch eich dychwelyd i ofal cyfreithiol eich rhieni rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs), yna gellir eich ystyried yn rhywun sy'n gadael gofal o hyd.<br>**Dylech anfon y canlynol atom:**<br>Llythyr gan eich Awdurdod Lleol sy'n cadarnhau eich cyfeiriad presennol a'r ffaith eich bod yn byw dan ofal yr Awdurdod Lleol gyda rhieni maeth.<br>Rhaid i'r llythyr hwn fod ar bapur pennawd. Bydd angen iddo gael ei lofnodi a'i ddyddio gan swyddog awdurdodedig o'ch Awdurdod Lleol, a bydd angen iddo gynnwys stamp swyddogol. |
| (t) | Cael Cymhorthdal Incwm, neu Gredyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Cynhwysol yn eich enw eich hun | **Dylech anfon un o'r rhain atom:**<br>• eich datganiad budd-daliadau presennol am y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025; **neu**<br>• eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth am y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025; **neu**<br>• eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Cynhwysol rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025. |
| (t) | Cyfrifoldeb am blentyn | **Dylech anfon un o'r rhain atom:**<br>• eich datganiad Budd-dal Plant diweddaraf; **neu**<br>• tystysgrif geni **wreiddiol** eich plentyn. |
| (t) | Person ifanc sydd yn y ddalfa/mewn canolfan gadw o fewn y System Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn o bryd | Gallai fod yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc, Canolfan Hyfforddi Ddiogel a/neu Gartref Diogel i Blant.<br>**Dylech anfon un o'r rhain atom:**<br>• llythyr ar bapur pennawd gan eich gweithiwr allweddol sy'n:<br>  • cadarnhau hyd a lleoliad eich carchariad; **ac**<br>  • yn cadarnhau eich cenedligrwydd/manylion preswylio; **ac**<br>  • yn cadarnhau eich bod chi'n cydsynio y gall eich gweithiwr allweddol weithredu ar eich rhan at ddibenion y LCA; **a**<br>  • dylech chi a'ch gweithiwr allweddol lofnodi'r llythyr. |

# Adran 8 Manylion ariannol

## Rhan A

Hunanasesu

**Os gwnaethoch chi lenwi ffurflen dreth ar-lein**

Dylech gyfeirio at y ffurflen dreth ar-lein a gadwyd gennych i gael y ffigyrau incwm gofynnol yn yr adran hon.

**Os gwnaethoch lenwi ffurflen dreth bapur**

Mae canllaw ar-lein i'ch helpu i ateb y cwestiynau yn yr adran hon, a gallwch ei lawrlwytho trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca** neu os hoffech i ni anfon copi atoch, ffoniwch ni ar **0300 200 4050**.

## Rhan B Manylion ariannol blwyddyn dreth 2023-24

Rhannu data

Byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth ariannol a roddwch i ni gyda Chyllid a Thollau EM. Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol.

Os na fyddwch yn nodi'ch rhif Yswiriant Gwladol ar y ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu'ch dogfennau ariannol. Os dangosir eich rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu hanfon atom ni, byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon ac yn ei rhannu a'i chadarnhau â Chyllid a Thollau EM er mwyn cael gwybodaeth ariannol gywir amdanoch chi.

**8.1** Os yw incwm eich cartref wedi lleihau'n barhaol ers blwyddyn dreth 2023-24

I fod yn gymwys i gael taliadau LCA, dylai cyfanswm incwm eich cartref fod naill ai yn:

- £23,400 neu lai; **neu**
- £25,974 neu lai **ac** mae mwy nag un person ifanc yn y cartref yn gymwys i gael Budd-dal Plant.

Os gwnaethoch ennill mwy na'r trothwy hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 ond bod eich incwm wedi gostwng yn is na'r trothwy ers hynny, gellir eich ystyried i gael LCA ar sail incwm presennol eich cartref.

**Mae arnom angen prawf o incwm presennol eich cartref; dylech anfon un o'r rhain atom:**

- eich llythyr Credyd Cynhwysol diweddaraf; **neu**
- eich llythyr Cymhorthdal Incwm diweddaraf; **neu**
- eich slipiau cyflog am y 3 mis diwethaf; **neu**
- **Os byddwch chi'n llenwi hunanasesiad** – llythyr gan eich cyfrifydd ar bapur pennawd sy'n datgan eich incwm tri mis diwethaf. Rhaid llofnodi a nodi'r dyddiad ar y llythyr hwn.

Os yw eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Cynhwysol yn dangos unrhyw incwm o fudd-daliadau trethadwy neu gyflogaeth, rhaid i chi hefyd anfon tystiolaeth o'r incwm hwn.

**A phrawf i ddangos fod incwm eich cartref wedi gostwng yn barhaol; anfonwch un o'r rhain atom:**

- eich P45; **neu**
- eich llythyr diswyddo; **neu**
- lythyr gan eich cyflogwr ar bapur pennawd sy'n egluro'r gostyngiad parhaol mewn incwm. Rhaid llofnodi a nodi'r dyddiad ar y llythyr hwn.

**Os oes dau riant/gwarchodwr yn eich cartref**

Os yw'r incwm wedi gostwng ar gyfer un rhiant/gwarchodwr, rhaid i'r llall hefyd ddarparu tystiolaeth o'i enillion.

# Adran 8 Manylion ariannol (parhad)

**8.4** Incwm o gyflogau

Os cawsoch chi **gildyrnau a thaliadau eraill** fel rhan o'ch cyflog yn 2023-24 na welir ar eich P60, bydd rhaid i chi gynnwys y ffigwr hwn wrth nodi cyfanswm yr incwm a enilloch trwy gyflogaeth.

Incwm o fudd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth

**Dylech gynnwys yr incwm a gafwyd yn achos y budd-daliadau hyn yn unig:**

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Budd-dal ymddeol graddedig
- Budd-dal Analluogrwydd (dylech gynnwys y swm a geir wedi 28 wythnos o analluogrwydd yn unig)
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Salwch Statudol
- Lwfans Rhiant Gweddw

**8.6** Incwm o gynilon a buddsoddiadau

I sicrhau fod y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi'i rannu'n bedair rhan ar wahân. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm o bob rhan. Dywedwch wrthym ni am y rhai a gawsoch chi yn unig.

Dywedwch wrthym am gyfanswm y llog/incwm a gawsoch yn sgil cynilon a budd-daliadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, nid cyfanswm y cynilon neu'r symiau buddsoddi oedd gennych.

Cyfanswm y llog o fanciau, cymdeithasau adeiladau ac ymddiriedolaethau unedol yn y DU

Llog gros y DU yw hyn (cyn i dreth gael ei ddidynnu)

Rhaid i chi gynnwys y llog a gewch ar gyfrifon banc neu gymdeithasau adeiladau a chyfrifon cynilo eraill, onid yw'n gyfrif di-dreth penodol, er enghraifft, Cyfrif Cynilo Unigol di-dreth (ISA) ayyb.

Os na wnaethoch chi ddatgan unrhyw gynilon ac incwm o fuddsoddiadau i Gyllid a Thollau EM, edrychwch ar eich datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu i weld y ffigyrau hyn.

# Adran 8 Manylion ariannol (parhad)

g Cyfanswm yr incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarantau a phartneriaethau yn y DU

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Llog o warantau gilt a gwarantau eraill yn y DU – cyfanswm gros cyn treth
- Enillion polisi yswiriant bywyd ayyb yn y DU y cafodd treth a dalwyd arnynt ei drin fel treth a dalwyd
- Enillion polisi yswiriant bywyd ayyb yn y DU na chafodd unrhyw dreth ei drin fel treth a dalwyd
- Enillion polisïau yswiriant bywyd ayyb yn y DU o ISAs a ddilëwyd
- Eich cyfran o log wedi'i drethu ayyb
- Cyfanswm incwm cynilon heb ei drethu a drethir ar y gyfradd 20%
- Incwm trethadwy a drethir ar y gyfradd 10%
- Incwm trethadwy a drethir ar y gyfradd 20%

ⓖ Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau a difidendau yn y DU

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Difidendau gan gwmnïau yn y DU
- Difidendau eraill
- Difidendau stoc
- Dosbarthiadau a benthyciadau cwmni caeedig anghymwys a ddilëwyd neu a ryddhawyd
- Cynlluniau budd-daliadau – cyfanswm trethadwy

ⓖ Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau a difidendau dramor

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Difidendau tramor
- Llog ac incwm arall o gynilon mewn gwlad dramor
- Difidendau gan gwmnïau o wlad dramor
- Incwm difidendau a dderbyniwyd gan unigolyn mewn gwlad dramor

# Adran 8 Manylion ariannol (parhad)

**8.7** Buddion trethadwy mewn nwyddau
(g)

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Asedau a oedd ar gael i gyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill)
- Taliadau a wnaed ar ran cyflogai
- Talebau a chardiau credyd
- Llety byw
- Lwfans milltiredd a thaliadau gan deithwyr
- Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol yr holl geir/faniau oedd ar gael
- Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol tanwydd ar gyfer yr holl geir/faniau oedd ar gael
- Cyfanswm gwerth ariannol cyfatebol benthyciadau ar ôl didynnu unrhyw log a dalwyd gan y benthyciwr
- Triniaeth feddygol breifat neu yswiriant meddygol preifat
- Treuliau, taliadau a buddion adleoli cymwys
- Gwasanaethau a ddarparwyd
- Asedau oedd ar gael i gyflogai
- Eitemau eraill (yn cynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol)
- Taliadau treuliau a roddwyd i'r cyflogai neu a dalwyd ar ei ran

## Rhan C

**Unrhyw incwm arall**

**8.9** Incwm o hunangyflogaeth
(g)

I sicrhau fod y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi'i rannu'n 2 ran. Efallai eich bod wedi cael neu heb gael incwm o'r ddwy ran. Dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch chi.

(g) Cyfanswm elw wedi'i addasu o fusnesau

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm yr elw wedi ei addasu o'r busnes hwn (wedi'i gyfuno ar gyfer gweithgarwch hunangyflogaeth lluosog)

(g) Cyfanswm elw wedi'i addasu o bartneriaethau

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfran o gyfanswm yr incwm wedi'i drethu a heb ei drethu ac eithrio incwm a drethir ar y cyfraddau 10% ac 20%
- Eich cyfran o gyfanswm yr elw wedi'i addasu o'r partneriaethau

**8.10** Incwm fel Gweinidog yr Efengyl
(g)

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm yr incwm trethadwy llai'r treuliau (Gweinidogion yr Efengyl) sydd heb eu cynnwys ar eich P60 neu'ch P11D

# Adran 8 Manylion ariannol (parhad)

**8.11** ⓖ Unrhyw incwm trethadwy neu gyfandaliadau eraill

**Mae hyn yn cynnwys:**
- Incwm trethadwy arall – cyn didynnu costau a threthi
- Enillion mewn gwledydd tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU
- Cyfandaliadau trethadwy
- Cyfandaliadau neu fuddion a gafwyd o Gynllun Buddion Ymddeol a Ariennir gan Gyflogwr, ac eithrio pensiynau
- Tâl colli swydd trethadwy a chyfansymiau a thaliadau iawndal eraill

**8.12** ⓖ Incwm o osod eiddo

**Mae hyn yn cynnwys:**
- Incwm o eiddo yn y DU
- Incwm o eiddo neu dir mewn gwlad dramor

**8.13** ⓖ Incwm o ymddiriedolaethau yn y DU

**Mae hyn yn cynnwys:**
- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth i breswylwyr y DU – cyfanswm net
- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth i breswylwyr y DU – cyfanswm taliadau gan ymddiriedolaethau budd setlwr
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – cyfanswm net incwm nad yw'n gynilon
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – cyfanswm net incwm cynilon
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – cyfanswm net incwm difidendau
- Incwm a godir ar setlwyr
- Incwm o ystadau yn y DU
- Incwm o ystâd mewn gwlad dramor

**8.14** ⓖ Incwm tramor

**Mae hyn yn cynnwys:**
- Cyfanswm trethadwy'r pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a'r breindaliadau mewn gwledydd tramor
- Cyfanswm trethadwy pob incwm tramor arall a dderbynnir gan unigolyn ac unrhyw incwm tramor 'wedi'i glustnodi' a drosglwyddir
- Enillion yn sgil gwaredu daliannau, cronfeydd tramor ac incwm o ymddiriedolaethau dibreswyl
- Buddion a gafwyd gan ymddiriedolaeth, cwmni neu unigolyn arall mewn gwledydd tramor
- Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd mewn gwledydd tramor (cyfanswm yr enillion)

# Adran 8 Manylion ariannol (parhad)

**8.15** Incwm o bensiwn mewn gwlad dramor

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Gwerth y buddion pensiwn ar ben y Lwfans Gydol Oes Sydd Ar Gael, y gwnaethoch eu cymryd fel cyfandaliad
- Cyfanswm taliad anawdurdodedig o gynllun pensiwn, na chodir gordoll arno
- Cyfanswm taliad anawdurdodedig o gynllun pensiwn, y codir gordoll arno
- Ad-daliad gwasanaeth byr trethadwy cyfraniad (cynlluniau pensiwn mewn gwledydd tramor yn unig)
- Taliad cyfandaliad buddion marwolaeth trethadwy (pensiynau mewn gwledydd tramor yn unig)

**8.16** Unrhyw incwm ac enillion tramor eraill

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm hepgorion (eithriadau wrth drosglwyddo asedau tramor)

## Rhan D

**Didyniadau incwm**

**8.19** Treuliau a ganiateir yr hawlioch ostyngiad yn y dreth amdanynt

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm y treuliau a ganiateir
- Treth mewn gwlad dramor na hawliwyd gostyngiad yn y dreth amdano
- Teithiau busnes a chostau cynhaliaeth
- Didyniadau sefydlog am gostau
- Ffioedd a thanysgrifiadau proffesiynol
- Costau a lwfansau cyfalaf eraill

# Adran 9 Manylion teulu'r myfyriwr

**9.2** g

Anghymwys oherwydd mae'r enillion yn uwch na'r trothwy i hawlio LCA

I fod yn gymwys i gael taliadau LCA, dylai cyfanswm incwm eich cartref fod naill ai'n:
- £23,400 neu lai; **neu**
- £25,974 neu lai **ac** mae mwy nag un person ifanc yn y cartref sy'n gymwys i gael Budd-dal Plant.

Os yw incwm eich cartref yn £25,975 neu fwy, nid ydych yn gymwys i gael taliadau LCA.

Os hoffech siarad â rhywun am eich sefyllfa benodol, gallwch ffonio **0300 200 4050**.

**9.3** t

Pobl ifanc eraill yn eich cartref sydd:

- dan 16 oed ac yn gymwys i gael Budd-dal Plant

**neu**

- yn 16, 17, 18, 19 neu 20 oed ar 1 Medi 2025, mewn addysg bellach amser llawn **ac** yn gymwys i gael Budd-dal Plant

**Mae angen i chi anfon tystiolaeth am bob plentyn yr enwoch yn 9.3**

**Os ydyn nhw dan 16, anfonwch un o'r rhain atom:**
- datganiad Budd-dal Plant diweddaraf eich cartref; **neu**
- tystysgrif geni'r plentyn; **neu**
- Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth diweddaraf eich cartref sy'n rhestru bob person ifanc.

**Os ydyn nhw'n 16, 17, 18, 19 neu'n 20 oed; anfonwch un o'r rhain atom:**
- datganiad Budd-dal Plant diweddaraf eich cartref; **neu**
- Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth diweddaraf eich cartref sy'n rhestru bob person ifanc; **neu**
- tystysgrif geni'r plentyn **a** cadarnhad o gofrestriad neu ddyfarniad gan sefydliad addysg bellach fel prawf fod y plentyn wedi ei dderbyn ar gwrs.

# Gwybodaeth Ychwanegol

Pryd fydda i'n cael taliadau?

**Cyn gallwn ni wneud taliadau:**

- rhaid i chi gytuno i a llofnodi eich Cytundeb LCA gyda'ch ysgol neu goleg;

**a**

- bydd rhaid i'ch ysgol neu'ch coleg ddweud wrthym eich bod yn mynychu.

Byddwn yn eich talu chi bob pythefnos ar ddydd Llun.

Er enghraifft, os caniateir LCA i chi a bydd eich ysgol neu'ch coleg yn cadarnhau'ch presenoldeb, byddwn ni'n talu bob pythefnos i chi.

Os bydd y diwrnod talu nesaf yn ŵyl y banc, byddwn yn talu i chi ar y diwrnod gwaith nesaf. Os ydych wedi nodi'ch rhif ffôn symudol yn adran 2, byddwn yn anfon neges destun atoch chi i ddweud pryd gewch chi eich LCA.

Ni fyddwch yn cael taliadau LCA yn ystod y gwyliau oherwydd ni thelir LCA pan fydd eich ysgol neu'ch coleg ar gau.

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Sut mae cwyno?

Fel arfer gellir datrys problemau'n gyflym a didrafferth trwy ffonio, esbonio'ch problem a gofyn i'w datrys. Os na fydd hyn yn datrys eich problem yn foddhaol, neu'ch bod yn credu nad yw'r ymagwedd hwn yn briodol, gallwch wneud eich cwyn mewn un o ddau ddull.

- Dros y ffôn:
  **0300 200 4050**
- Drwy e-bost:
  **customer_complaints@slc.co.uk**
- Trwy ysgrifennu at:
  **Customer Relations Unit**
  **Student Loans Company**
  **10 Clyde Place, Glasgow, G5 8DF**

  Cofiwch ddyfynnu eich Cyfeirnod Cwsmer (os oes gennych un) ym mhob gohebiaeth.

## Apeliadau

Os ydych am apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch eich cymhwysedd ar gyfer LCA, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA yn gyntaf drwy ffonio **0300 200 4050**.

I anfon apêl, lawrlwythwch ffurflen apelio yn:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cwynion-ac-apeliadau**

Anfonwch eich ffurflen trwy e-bost:
**formal_appeals@slc.co.uk**

Anfonwch eich ffurflen drwy'r post:
**Student Finance Wales Formal Appeal**
**PO Box 220 Llandudno Junction**
**LL30 9GE**

Cofiwch ddyfynnu eich Cyfeirnod Cwsmer (os oes gennych un) ym mhob gohebiaeth.